WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dr Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN

**Dyddiad** 28 Mai 2013



Annwyl Mohammed

**Gwaith Archwilio Perfformiad a Ffioedd ar gyfer 2013-14**

Ysgrifennaf i gadarnhau rhaglen y gwaith archwilio perfformiad yng Nghyngor Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ar gyfer 2013-14 a'r ffi sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwnnw. Cyflawnir y gwaith hwn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhannau 2 a 3 A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Yn ogystal â'r rhaglen archwilio ac asesu flynyddol o gynlluniau gwella a threfniadau adrodd, byddwn yn cynnal rhaglen Astudiaethau Gwella ac Astudiaethau Cenedlaethol o Lywodraeth Leol fel y nodir yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol dyddiedig 3 Ebrill 2013. Amlinellir y rhain ac elfennau penodol ein gwaith archwilio ac asesu yn y tabl isod. Noder bod rhaglen waith a ffi archwilio perfformiad bob blwyddyn yn cwmpasu un cylch gwaith Asesiad Gwella. Fodd bynnag, gan nad yw'r gwaith hwn yn gorwedd yn daclus o fewn cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth, gall y rhaglen waith flynyddol gwmpasu mwy nag un flwyddyn ariannol.

| Gwaith archwilio perfformiad SAC 2013-14 | |
|---|---|
| **Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol** | Diweddariad ar allu'r Cyngor i ddarparu gwelliannau parhaus |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella'** | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor i gyflawni amcanion gwella |
| **Archwiliad 'Asesiad Perfformiad'** | Adolygiad o asesiad cyhoeddedig y Cyngor o berfformiad, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad |
| **Adolygiad o ansawdd data** | Adolygiad o systemau i sicrhau cywirdeb gwybodaeth am berfformiad (gan gynnwys archwiliad dangosyddion perfformiad) |
| **Astudiaeth wella - Diogelu** | Adolygu trefniadau llywodraethu a rheoli'r awdurdod cyfan ar gyfer diogelu plant ac oedolion diamddiffyn |
| **Astudiaeth Genedlaethol o Lywodraeth Leol - Diwygio lles** | Adolygu'r trefniadau i reoli effaith diwygio lles |
| **Astudiaeth Genedlaethol o Lywodraeth Leol - Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau a dinasyddion** | Y gyntaf mewn cyfres o astudiaethau cenedlaethol o feysydd gwasanaeth penodol i edrych ar y defnydd gorau o adnoddau prin |
| **Adolygiad Lleol** | Adolygiad lleol o gynydd y Cyngor wrth foderneiddio a gwella gwasanaethau er mwyn cyflawni gwell effeithlonrwydd ar ran ei gwsmeriaid. Mae cwmpas y gwaith i'w drafod. |

Mae'r tabl isod yn nodi ein ffioedd am waith archwilio perfformiad ac mae'n cynnwys y ffi am waith archwilio ariannol er cyflawnder. Caiff y ffi ddangosol ar gyfer Ebrill 2013 hyd Fawrth 2014 ei chodi mewn rhandaliadau cyfartal rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014. Os canfyddir yn ystod yr archwiliad a'r asesiad bod angen gwneud gwaith ychwanegol, gellir codi ffioedd ychwanegol am hyn. Yn yr un modd, os bydd mater pwysig yn codi a fydd, yn ein barn ni, yn golygu mai'r arolygiad arbennig yw'r ymateb priodol, byddwn yn codi ffi ychwanegol er mwyn cynnal arolygiad o'r fath. Codir TAW fel y bo'n berthnasol fel y nodwyd yng ngohebiaeth yr Archwilydd Cyffredinol dyddiedig 26 Ebrill 2013.

| **Ffi** | **£** | **Ffi'r flwyddyn flaenorol** |
|---|---|---|
| Ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad SAC rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014 | 120,081.00 | 120,880.00 |
| Ffi ar gyfer gwaith yr Archwilydd Penodedig ar ddatganiadau ariannol 2012-13 | 165,802.00 | 165,837.00 |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025* | 659.00 | |
| **Cyfanswm y Ffi** | **286,542.00** | **286,717.00** |

*Mae elfen fach o'r ffi hon yn ymwneud â chytundeb SAC i secondio aelod o staff i weithio fel arweinydd cyllid cyhoeddus yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 am gyfnod o chwe mis. Rhaglen annibynnol yw Gwasanaethau Cyhoeddus 2025 a sefydlwyd i godi ymwybyddiaeth o faint yr heriau demograffig, ariannol a chynaliadwyedd y mae Cymru yn eu hwynebu, ac i greu a chefnogi syniadau a fydd yn helpu ein gwasanaethau cyhoeddus i ymateb yn effeithiol i'r heriau hynny. Mae Steve Thomas, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), wedi cydnabod perthnasedd y prosiect hwn ac mae CLlLC wedi cefnogi ariannu'r secondiad drwy ailgodi tâl ochr yn ochr â ffioedd archwilio allanol, a gaiff eu rhannu'n gyfartal rhwng pob awdurdod unedol. Amcangyfrifir y bydd yr arian a ailgodir rhwng £600 ac £800 fesul awdurdod unedol a chaiff y swm hwn ei anfonebu ochr yn ochr â'r ffioedd archwilio allanol yn ystod 2013-14.

Yn ogystal â'r rhaglen waith a amlinellir uchod, efallai y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith mewn cyrff llywodraeth leol yn ystod ein rhaglen astudiaethau gwerth am arian a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried gan ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Gan fod nifer o'r astudiaethau hyn yn croesi ffiniau gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, byddant yn aml yn berthnasol i'n gwaith ym maes

llywodraeth leol. Ariennir y gwaith hwn ar wahân drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac felly ni chodir ffi amdano.

Yn ogystal, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd o dan y Mesur mewn perthynas â chydgysylltu swyddogaethau rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, sef yr Archwilydd Penodedig; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Estyn; a Chomisiynydd y Gymraeg. Caiff ystod y gwaith archwilio perfformiad y bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol yn ei gyflawni ei amlinellu'n fanylach mewn Cynllun Gwaith ac Amserlen a gaiff eu hadolygu bob chwarter.

Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi crynodeb o'n gwaith ni a gwaith rheoleiddwyr perthnasol, a byddwn yn cyhoeddi adroddiadau (a/neu lythyrau) yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith archwilio ac asesu. Yn unol â gofynion y Mesur, caiff copïau o'r rhain eu hanfon at Weinidogion Cymru. Byddwn hefyd yn rhoi adborth lleol ar ein Hastudiaethau Gwella. Gan mai dim ond mewn awdurdodau dethol y mae ein hastudiaethau cenedlaethol yn cael eu cynnal, efallai na chewch adroddiad lleol: yn hytrach byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol y bydd ei argymhellion yn berthnasol i bob awdurdod lleol. Lle y bo'n briodol, gall ein hastudiaethau gwella a'n gwaith cenedlaethol arwain at seminarau cyd-ddysgu.

Os hoffech drafod unrhyw elfen o'r gwaith hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Huw Lloyd Jones (Huw.lloydjones@wao.gov.uk) neu'r Gwilym Bury (Gwilym.bury@wao.gov.uk).

Yn gywir



Alan Morris
Cyfarwyddwr Grŵp SAC